

Teitlau Mandadol





Beth yw Teitl Mandadol?

Teitl Mandadol yw rhestr o hyfforddiant sydd yn bwysig i'r ffordd rydym ni fel cyflogwr yn gweithio. Fel aelod o staff Cyngor Gwynedd bydd disgwyl i bob aelod o staff gwblhau'r hyfforddiant Mandadol isod:

- Diogelu Data / Data Protection
- Cydraddoldeb / Equality
- Diogelu / Safeguarding
- Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg / Welsh Language Awareness
- Trais yn Erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol / Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence
- Atal 2023 / Prevent 2023
- Iechyd a Diogelwch / Health and Safety

Pam ei fod mor bwysig yw cwblhau?

Mae'r gofyn i gwblhau'r teitlau Mandadol uchod yn rhan o gytundeb gwaith pob un ohonom fel aelodau staff Cyngor Gwynedd.

Sut allwch eu cwblhau?

Allwch gwblhau drwy un ai gwblhau e-fodiwlau neu hyfforddiant traddodiadol (os yw'n bodoli). Gallwch cwblhau'r e-fodiwlau trwy fynd i'r [Porth e-ddysgu](#) â'r hyfforddiant traddodiadol trwy gofrestru ar yr [Hunan Wasanaeth](#).



Sut allwch wirio os ydych wedi eu cwblhau?

Gallwch wirio os ydych wedi cwblhau Teitl Mandadol trwy fynd i [Fy Rhaglen Dysgu](#) yn Fy Nghyflogaeth yn yr Hunan wasanaeth. Bydd y cofnod yn cael ei diweddarau'n wythnosol.

Fydd monitro'n digwydd?

Mi fydd adroddiadau cofnod cwblhau yn cael ei gynhyrchu i wahanol gwasanaethau yn ôl yr ofyn. Yn ogystal gall Rheolwyr gweld cofnod eu Staff ar yr Hunan wasanaeth ([Canllaw](#)).

I bwy allaf ofyn am gymorth ychwanegol?

Am gymorth cyffredinol cysylltwch â :
Dysgu@gwynedd.llyw.cymru

Os ydych yn cael trafferth mewngofnodi i'r Hunan Wasanaeth , gallwch gysylltu :
Desgarchebioncefnogol@gwynedd.llyw.cymru

Os ydych yn cael trafferth mewngofnodi i'r Porth e-ddysgu , gallwch gysylltu :
Dysgu@gwynedd.llyw.cymru



Canllawiau i gynorthwyo gweithwyr rheng flaen i gwblhau'r hyfforddiant Mandadol

Oherwydd diffyg offer ac efallai lefel sgiliau digidol nifer o weithwyr yn y rheng flaen mae angen cymorth/trefniadau ychwanegol i alluogi ambell un i gwblhau'r hyfforddiant Mandadol.

Dyma gyfundrefn ymarferol i gefnogi'r rheng flaen

Bydd angen i Reolwr/Goruchwyliwr y tîm sydd angen cymorth:

Cam 1: Sicrhau bod gan bob unigolyn sydd am gwblhau'r e-fodiwlau **gyfrif ar y Porth e-ddysgu**. I wneud hyn, anfonwch e-bost at dysgu@gwynedd.llyw.cymru, gan gynnwys enwau a rhifau cyflog yr holl staff fydd yn yr hyfforddiant.

Cam 2: Gwnewch drefniadau i **fenthyg iPads a chlustffonau** gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Uchafswm sydd ar gael: 6

Cam 3: Trefnwch amser ac ystafell (tawel a chyffordus) priodol i'r unigolion gwblhau'r e-fodiwlau ar yr iPads. Sicrhewch oruchwyliaeth a chymorth yn ystod yr hyfforddiant i hwyluso'r dysgu. Gallwch ddod o hyd i ganllawiau defnyddiol ar y dudalen nesaf.



Canllaw

- Ar ôl mynd i mewn i'r iPad gyda'r rhif 679079, cliciwch ar y botwm:



- Yna i mewngofnodi i mewn i'r Porth e-ddysgu, rhwch eich rhif cyflog a'r cyfrinair cyn glicio ar y botwm arian Mewngofnodi.



PORTH E-DDYSGU

E-LEARNING PORTAL

<https://gwynedd.learningpool.com>



Rhif cyflog

Cyfrinair

Choose a language

cy ▼

☐ Cofio'r enw defnyddiwr

Ydych chi wedi anghofio'ch enw defnyddiwr neu gyfrinair?

Mewngofnodi




Canllaw

- Yna cliciwch ar y botwm yma:



- Dyma'r 7 Teitl Mandadol sydd angen eu cwblhau



- Yna dewiswch pa un yr hoffech ei gwblhau, yr un Saesneg neu'r un Gymraeg. Gweler esiampl o'r e-fodiwl Diogelu isod.

Diogelu / Safeguarding

Diogelu

Safeguarding

- Dylai pob e-fodiwl gymryd llai na 30 munud i'w gwblhau